# Ffonau llaw Blackberry

11 Mawrth 2013

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Chwefror 2013, pan wnaethoch ofyn,

*Nodwch gyfanswm nifer y staff yng Nghomisiwn y Cynulliad y darperir ffonau Blackberry iddynt ar hyn o bryd, a chyfanswm cost blynyddol y ffonau llaw symudol a roddwyd i staff y Comisiwn ym mhob un o'r pedair blwyddyn ariannol diwethaf (gan gynnwys y flwyddyn hon hyd yma).*

Atebaf y cwestiynau ar wahân.

***Cyfanswm y costau blynyddol am ffonau symudol a roddwyd i staff y Comisiwn ym mhob un o'r pedair blwyddyn ariannol diwethaf (gan gynnwys y flwyddyn hon hyd yma).***

Mae'r ffigurau isod yn nodi cyfanswm y gost am ffonau symudol. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau Blackberry a ffonau symudol eraill.  Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW.

| 2009/10 | 2010/11* | 2011/12 | 2012/13 (yn cynnwys mis Ionawr) |
|---|---|---|---|
| £ 15,508 | £ 16,748 | £ 15,157 | £ 11,573 |

* Yn ystod mis Awst a mis Medi 2010, newidiodd Comisiwn y Cynulliad i gyflenwr arall ac felly roedd anfonebau'n gorgyffwrdd yn y cyfnod pan ddigwyddodd y trosglwyddiad hwn. Arweiniodd hyn at gynnydd bach yn ystod y flwyddyn ariannol.

***Nodwch gyfanswm nifer y staff yng Nghomisiwn y Cynulliad y darperir ffonau Blackberry iddynt ar hyn o bryd.***

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Oherwydd bod y costau uchod yn ymwneud â dyfeisiau Blackberry a ffonau symudol eraill, roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig cynnwys ffigur ar gyfer ffonau symudol yn y tabl a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Blackberry | 28 |
| Ffonau symudol | 14 |
| **CYFANSWM** | **42** |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**